

Gwasanaethau Llyfrgell i Gwsmeriaid â Gofynion Arbennig



Cyfleusterau i 'r anabl, rhai â nam ar eu golwg a phobl hŷn:

Darperir mynediad i gadeiriau olwyn ym mhob un o lyfrgelloedd Sir y Fflint ac mae lifftiau ar gael hefyd ym mhob adeilad llyfrgell sydd â mwy nag un llawr. Mae gan rai llyfrgelloedd gyfleusterau toiled i'r anabl ar gyfer defnyddwyr llyfrgell.

Mae gan bob cyfrifiadur yn llyfrgelloedd Sir y Fflint gymorth ar sgrin ar gyfer chwyddo'r llun. Mae gan bob llyfrgell hefyd amrywiaeth o offer i gynorthwyo amrywiaeth eang o gwsmeriaid, yn cynnwys rhai sydd â nam ar y golwg, yn cynnwys:

- Meddalwedd testun i leferydd
- Bysellfwrdd allweddau mawr a bysellfwrdd cyferbyniad uchel - y ddau yn cynnig mwy o welededd
- Peli llwybro ar gyfer cyfrifiaduron i ddefnyddwyr ag anableddau corfforol
- Meddalwedd rhagfynegol i roi cymorth gyda sillafu i rai sydd â dyslecsia neu anableddau corfforol
- Trolïau y gellir addasu eu uchder er mwyn rhoi mynediad i gadeiriau olwyn

Gwasanaeth Cludo i'r Cartref

Mae Llyfrgelloedd Sir y Fflint yn darparu gwasanaeth cludo i'r cartref ar gyfer pobl nad ydynt, oherwydd oedran neu anabledd, yn gallu ymweld â llyfrgell. Mae'r eitemau y gellir eu benthycu yn cynnwys llyfrau print bras, llyfrau llafar a DVD, detholir pob eitem ar gyfer anghenion yr unigolyn. Cludi'r yr eitemau at garreg eich drws unwaith bob 3 neu 6 wythnos. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth cysylltwch â Prif Swyddfa Llyfrgelloedd ar 01352 704400 neu ebostiwch paula.jones@flintshire.gov.uk

Mae gan bob llyfrgell yn Sir y Fflint ddewis o Lyfrau Print Bras, ffuglen a ffeithiol, i wneud darllen yn haws a mwy cyfforddus i'r rhai sydd â golwg gwael.

Cedwir Llyfrau Llafar yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd Sir y Fflint. Mae fformatau

amrywiol ar gael yn y sir, gan gynnwys casét, CD, disg MP3 a fformat MP3 sydd wedi'i lwytho'n barod o'r enw Playaways. Codir tâl llogi ar gyfer benthg Llyfrau Llafar, ond maent ar gael yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall, yn rhannol ddall neu sy'n gaeth i'w tŷ. Gellir archebu Llyfrau Llafar sy'n cael eu dal gan y sir heb unrhyw dâl ychwanegol, gellir archebu eitemau nad ydynt yn ein stoc trwy dalu tâl bychan am wneud cais. Gall aelodau llyfrgelloedd Sir y Fflint lawrlwytho llyfrau llafar yn rhad ac am ddim ar gyfrifiadur neu ddyfais symudol, gan gynnwys chwaraewyr MP3, iPod, tabledi a ffonau symudol. Dewis o dros 800 teitl.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Sir y Fflint yn talu ffioedd aelodaeth i'r RNIB a'r NLB i holl drigolion cymwys Sir y Fflint. Mae'r RNIB yn darparu chwaraewr llyfrau llafar digidol a chasgliadau rheolaidd o deitlau i chi ddewis ohonynt. Mae ffurflenni aelodaeth RNIB ar gael gan Lyfrgelloedd Sir y Fflint neu gan Gofal Cymdeithasol Oedolion. Mae gwasanaeth yr NLB yn darparu dewis helaeth o lyfrau mewn Braille a Moon yn ogystal â gwasanaeth gwybodaeth. Mae ffurflenni aelodaeth yr NLB ar gael yn uniongyrchol oddi wrth yr NLB.

Mae'r Casgliad Hel Atgofion yn cynnwys deunydd y gellir ei ddefnyddio i ysgogi a chefnogi gwaith hel atgofion. Fe'i cedwir yn Llyfrgell a Chanolfan Dysgwyr Treffynnon ac mae'n cynnwys fideos, posteri, cwisiau, cerddoriaeth wedi'i argraffu a'i recordio, ffotograffau, tapiau a llyfrau llafar. Gellir gwneud cais am eitemau eich llyfrgell leol sy'n dal catalog o'r casgliad. Gall Hel Atgofion roi cyfle i bobl edrych yn ôl dros gyfnodau gwahanol o'u bywydau ac adnabod yr wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u casglu dros y blynyddoedd. Fel cymorth therapiwtig fe all adeiladu pontydd rhwng pobl hŷn a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Fe all Cartrefi Preswyl fenthg casgliad o lyfrau, gan gynnwys llyfrau print bras a llyfrau dâp neu CD, i'w defnyddio gan breswylwyr. Gallwch ofyn am deilwrio'r casgliad i gwrdd ag anghenion y preswylwyr. Gellir benthg uchafswm o 75 eitem ar unrhyw un adeg. Caiff llyfrau eu cyfnewid bob chwarter. Mae tâl blynyddol yn daladwy (£105.00 yn cynnwys TAW) os dosberthir y casgliad gan y gwasanaeth llyfrgell. Ni chodir tâl os cesglir y llyfrau gennyh chi. Cysylltwch â'ch llyfrgell leol i gael manylion.

Presgripsiwn Llyfrau Cymru – ar gyfer hunan gymorth ac iechyd

Weithiau gellir rhoi help i bobl drwy argymell eu bod yn darllen deunyddiau hunangymorth, ac os yw meddyg teulu yn credu y gall llyfrau fod o gymorth, fe all roi presgripsiwn ar ffurf llyfr 'hunangymorth' i'r claf. Gellir benthg y llyfrau hyn o unrhyw lyfrgell yn Sir y Fflint.

Mae Presgripsiwn Llyfrau Cymru yn gynllun sy'n darparu llyfrau llyfrgell ar gyfer hunangymorth ac iechyd. Os yw eich meddyg yn credu y gall llyfr eich helpu fe all roi presgripsiwn ar ffurf llyfr 'hunangymorth' i chi. Gellir benthg y llyfrau hyn o unrhyw lyfrgell yn Sir y Fflint ac maent yn cwmpasu pynciau fel iselder, ymddygiad cymhellol, gorfwyta, mynd ar ddeiet, cam-drin plant, profedigaeth, a llawer mwy. Mae Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Sir y Fflint yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Phrifysgol Betsi

Cadwaladr wrth gyflwyno'r prosiect bibliotherapi yma. Yn ogystal â'r cynllun presgripsiwn, mae detholiad o lyfrau hunangymorth ar gael i'w benthg o bob llyfrgell yn Sir y Fflint.

Adnoddau er mwyn helpu pobl i wella llythrennedd neu rifedd

Mae gan rai prif lyfrgelloedd gasgliadau sgiliau sylfaenol i oedolion sydd am wella eu llythrennedd a rhifedd, a chynhelir dosbarthiadau hefyd mewn rhai lleoliadau.

Adnoddau i blant ag anghenion arbennig

Mae Llyfrgelloedd Sir y Fflint yn croesawu plant ag Anghenion Arbennig yn fawr. Mae gan bob llyfrgell fynediad i'r anabl, llyfrau llafar, llyfrau cyffwrdd a Chasgliadau Rhieni syn cynnwys teitlau o ddiddordeb i rieni a gofalwyr plant ag Anghenion Arbennig.

Tudalennau Problemau

Gellir benthg llyfrau er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddelio â phroblemau sy'n amrywio o faterion bob dydd i anghenion arbennig o gasgliad canolog gan gynnwys pynciau cyffredinol a phenodol.